

42. LWC YR WYTHFED TRO
(Samuel yn eneinio Dafydd)

Am flynyddoedd lawer llefarodd y proffwyd Samuel air Duw yn ffyddlon i bobl Israel. Rhoddai arweiniad ysbrydol iddynt a chymorth iddynt ddatrys cwerylon. Ond bu cyfnod, ychydig cyn iddo farw, pryd y teimlodd y gŵr hynod hwn yn isel a thrist. Byddai'n gorwedd yn ei wely gyda'r nos yn methu cysgu, gan ei ystyried ei hun yn fethiant llwyr. Dro ar ôl tro, roedd y bobl a garai wedi gadael Duw i lawr.

I ddechrau, dyna Joel ac Abia ei feibion ef ei hun. Yn hytrach na gwasanaethu Duw yn onest roedd y ddau wedi ildio i dwyll a chael eu llwgrwobrwyo. A dyna i chi holl genedl Israel. Yn hytrach na bodloni ar fyw dan lywodraeth Duw, roeddynt wedi mynnu cael brenin daearol i'w rheoli. Ac yn olaf roedd Saul . . .

Roedd meddwl am Saul yn ddigon i ddod â dagrau i lygaid yr hen ŵr. Cofiai'n dda y dydd yr eneiniodd ef yn frenin cyntaf Israel. Roedd wedi ymddangos yn ŵr ifanc mor addawol – mor eiddgar i gadw cyfraith Duw. Ond, dros y blynyddoedd a ddilynodd, er i Saul ymddangos yn llwyddiannus i eraill, bu'n anufudd i Dduw gynifer o weithiau nes i'r Arglwydd ei wrthod yn y diwedd. Bu dweud wrth Saul ei fod wedi colli cefnogaeth Duw yn hynod anodd i Samuel. Roedd yn caru Saul ac yn casáu ei weld yn gwneud llanast o'i fywyd. Ond yn waeth na hynny pryderai am y dyfodol.

'Roeddwn i wedi meddwl y cawn ddiweddu'n nyddiau mewn

heddwch, gan wybod fod gŵr o ddewis Duw ar yr orsedd,' mwmiodd wrth droi a throsi drwy gydol oriau maith y nos. 'Wnaiff hynny ddim digwydd nawr.'

Ac yna, un noson, dyma Duw'n rhoi her iddo.

'Pa mor hir wyt ti am barhau i alaru?' holodd Duw. 'Mae Saul yn wrthodedig gennyf. Felly dos i 'mofyn olew ac wedyn dos i Fethlehem i gartref gŵr o'r enw Jesse. Rwyf wedi dewis un o'i feibion i fod yn frenin.'

Fel arfer nid oedd modd anwybyddu'r llais tawel mewnol. Er gwaethaf ei anhapusrwydd, gwyddai Samuel fod yn rhaid gweithredu.

'Tyrd â bustach gyda thi a dywed dy fod wedi dod i Fethlehem i offrymu,' meddai Duw. 'Rho wahoddiad i Jesse gymryd rhan.'

Pan welodd arweinwyr y ddinas Samuel yn dod i mewn drwy'r pyrth yr oeddent braidd yn bryderus.

'Y proffwyd Samuel! Yn dod yma! Beth sydd arno ei eisiau?'

Roedd yn ollyngdod deall na ddaethai yno i'w ceryddu am unrhyw beth.

'Wedi dod i offrymu mae o. Hyfryd iawn wir!' meddai pawb gan wenu. 'Fe wnawn ni baratoi ar gyfer y seremoni ar unwaith.'

Yn y cyfamser, mewn tŷ gerllaw, yr oedd gwraig Jesse'n brysur yn chwilio am wyth tiwnig glân ac wyth clogyn glân i'w gŵr a'i meibion. 'Wyt ti wedi clywed y newydd diweddaraf? Mae fy meibion wedi cael eu gwahodd i gynnig offrwm gyda'r proffwyd Samuel,' meddai'n llawn balchder wrth ei chymydog.

Pan oedd popeth wedi ei drefnu dyma Samuel ac arweinwyr y ddinas yn ymgynnull o amgylch yr allor. Ar eu ffordd i fyny'r bryn (yn eu gwisgoedd Sabath gorau) yr oedd Jesse a'i saith mab. Llamodd calon Samuel wrth eu gweld yn dynesu tuag atynt. Dychmygwch! Rywle ymhlith y gwŷr ifanc golygus hyn yr oedd brenin newydd Israel. Y cwestiwn mawr, fodd bynnag, oedd: Pa ŵr ifanc a ddewisai Duw?

Y cyntaf i gyrraedd y copa oedd Eliab, llanc tal a golygus. 'Hynod drawiadol,' meddyliodd Samuel wrth ei lygadu o'i gorun i'w sawdl. Ac yn wir, ymddangosai mab hynaf Jesse'n berffaith ar gyfer y gwaith. Roedd yn edrych yn dda. Roedd i'w weld yn abl. Ond wrth i Samuel ymestyn am yr olew, clywodd sibrwd y llais mewnol tawel, 'Na.'

'Na?' meddai Samuel gan amau a glywodd yn iawn.

'Rwyt ti'n barnu'n ôl yr olwg,' eglurodd Duw. 'Cofia hyn. Mae dyn yn barnu'n ôl yr hyn a wêl, ond ar y galon yr wyf fi'n edrych.'

Y nesaf oedd Abinadad – yntau hefyd yn ŵr ifanc cryf ac abl. Eto yr oedd Samuel ar fin estyn am yr olew. Ond eto 'Na' a ddywedai'r llais mewnol tawel.

Yna daeth Samma. 'Sori, nid Samma yw fy newis 'chwaith,' meddai Duw.

Un ar ôl y llall, dilynwyd Samma gan Nethanel, Radai, Osem a seithfed mab na ddeallodd Samuel mo'i enw hyd yn oed. 'Na,' 'Na,' 'Na,' 'Na,' meddai Duw wrth bob un ohonynt. Roedd y cwbl yn siom fawr. Petai Samuel yn broffwyd llai profiadol, gallai fod wedi cael ei demtio i feddwl ei fod wedi cael ei alw i Fethlehem yn ofer. Ond roedd Samuel yn adnabod Duw'n well na hynny. Rhaid fod rhyw eglurhad arall.

'Oes rhagor o feibion gennyt?' holodd Jesse'n obeithiol.

'Wel, mae'r mab ieuengaf. Mae o allan yn bugeilio'r defaid.'

'Ewch i'w nôl,' gorchmynnodd Samuel. 'Wnawn ni ddim aberthu nes y bydd o yma.'

Toc dychwelodd Jesse â'i wynt yn ei ddwrn a'i wythfed mab yn dynn ar ei sawdl.

'Dyma . . . Dafydd,' meddai gan ymladd am ei wynt.

Roedd yn gryf o gorff, yn hardd ei wedd a chanddo lygaid gloyw. Roedd hefyd yn ddeallus ac yn hoffus. Llygadodd Samuel y llanc ac fe'i hoffodd ar unwaith. Gwenodd. Fedrai o ddim peidio. Ac yna – dyna ollyngdod! – clywodd y llais tawel oddi wrth Dduw yn dweud, 'Dyma'r un a ddewisais.'

O'r diwedd, dyma gael estyn yr olew. Gwnaeth Samuel i Dafydd benlinio a thywalltodd yr olew ar ei ben. 'Clod i Dduw!' Cododd y llanc ei freichiau i'r awyr mewn mawl a'r un pryd cododd y baich o dristwch oddi ar ysgwyddau Samuel. Roedd yn ddiwrnod hapus i Israel. Gallai weld fod Duw wedi canfod yn Dafydd arweinydd a fyddai'n ei wasanaethu â'i holl galon gydol ei fywyd.

HYD: 5–6 munud

NEGES: Nid fel y gwêl pobl eraill ni y mae Duw'n ein hadnabod. Mae Ef yn ein hadnabod yn go iawn.

DARLLEN: Seiliwyd y stori ar 1 Samuel 16: 1–13